



Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Rheoliadau perfformiadau plant:
pryd caiff plant gymryd rhan mewn
perfformiadau a'r seibiannau y
mae'n rhaid iddynt eu cael

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2015

Rheoliadau perfformiadau plant: pryd caiff plant gymryd rhan mewn perfformiadau a'r seibiannau y mae'n rhaid iddynt eu cael

Cynulleidfa	Awdurdodau lleol; penaethiaid a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir; penaethiaid a chyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr ac ysgolion sefydledig; athrawon sy'n gyfrifol am unedau cyfeirio disgyblion; awdurdodau esgobaethol yr eglwys; perchnogion ysgolion annibynnol; penaethiaid sefydliadau addysg bellach; undebau staff ysgolion; Llywodraethwyr Cymru; Gyrfa Cymru; undebau athrawon; awdurdodau addysg uwch a Chadeiryddion Byrddau Diogelu Plant Lleol; cwmnïau darlledu; cwmnïau theatr, cyrff operatig. Dylai staff o fewn y sefydliadau hynny sydd â chyfrifoldeb arweiniol am ddiogelu plant hefyd ei ddarllen.
Trosolwg	Mae'r ddogfen hon yn cynnwys crynodeb o ymatebion gan randdeiliaid yn ymwneud â <i>Rheoliadau perfformiadau plant: pryd caiff plant gymryd rhan mewn perfformiadau a'r seibiannau y mae'n rhaid iddynt eu cael</i> .
Camau i'w cymryd	Dim – er gwybodaeth yn unig.
Rhagor o wybodaeth	Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at: Debbie Campbell Tîm Dysgwyr Amrywiol a Diogelu Y Gyfarwyddiaeth Seilwaith, Cwricwlwm, Cymwysterau a Chymorth i Ddysgwyr Llywodraeth Cymru Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ Ffôn: 029 2082 5807 e-bost: ChildPerformanceConsultation@cymru.gsi.gov.uk
Copiau ychwanegol	Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru/ymgyngoriadau
Dogfennau cysylltiedig	<i>Rheoliadau perfformiadau plant: pryd caiff plant gymryd rhan mewn perfformiadau a'r seibiannau y mae'n rhaid iddynt eu cael</i> (2014)

Cynnwys

Cefndir	2
Yr ymgynghoriad	3
Ymateb i gwestiynau'r ymgynghoriad	4
Y camau nesaf	13

Cefndir

Barn Llywodraeth Cymru yw y dylid parhau i gael rheolau'n ymwneud â phryd y caiff plant berfformio, er mwyn diogelu eu hiechyd, eu lles a'u haddysg. Ond mae'r rheolau'n gymhleth ac yn gaeth ar hyn o bryd, ac nid ydynt bob amser er budd gorau'r plant.

Rhwng mis Awst a mis Hydref 2014 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus oedd yn cynnig codi'r cyfyngiadau diangen gan gadw'r rhagofalon angenrheidiol. Roedd yr ymgynghoriad yn ceisio barn ar fframwaith newydd arfaethedig sy'n pennu'r amgylchiadau lle caniateir i blant gymryd rhan mewn perfformiadau a'r seibiannau y mae'n rhaid iddynt eu cael yn ôl eu hoedran. Roedd hefyd yn ymgynghori ar gynigion i gael gwared â'r gwahaniaeth rhwng digwyddiadau a ddarlledir a rhai na chânt eu darlledu. Roedd yr ymgynghoriad yn ceisio barn ar gryfhau swyddogaeth hebryngwyr (wedi'u cymeradwyo gan awdurdod lleol) gan gynnig y caiff hebryngwr wneud penderfyniadau cyfyngedig i amrywio rheolau penodol, os yw'n credu ei fod er budd y plentyn. Roedd yr ymgynghoriad hefyd yn arwyddo ein bwriad i gael gwared â'r gofyniad i gael tystysgrif feddygol, a benderfynwyd yn dilyn yr ymgynghoriad a gynhaliwyd yn 2012.

Cafwyd cyfanswm o 21 o ymatebion i'r ymgynghoriad, gyda phob un yn croesawu diwygiadau i'r system gyfredol ac yn cytuno'n fras â'r cynigion drafft.

Cynorthwyodd ymatebion yr ymgynghoriad y gwaith o ddatblygu Rheoliadau Plant (Perfformiadau a Gweithgareddau) (Cymru) 2015.

Mae'r prif newidiadau fel a ganlyn:

- cael gwared â'r gofyniad i ddarparu tystysgrif feddygol cyn gallu rhoi trwydded;
- gael gwared â'r gwahaniaeth yn y rheolau rhwng perfformiadau a ddarlledir a rhai na chânt eu darlledu;
- codi'r cyfyngiadau o ran y mathau gwahanol o berfformiadau y caiff plant gyfranogi ynddynt;
- newid yr amseroedd cynharaf a hwyraf y caiff plentyn berfformio;
- fframwaith newydd sy'n gosod isafswm o ran gofynion seibiannau ac uchafswm oriau ar gyfer presenoldeb a pherfformio yn ôl ystod oed;
- bydd hebryngwyr yn gallu ymarfer rhywfaint o hyblygrwydd o ran amseroedd a seibiannau os yw er budd y plentyn;
- rhaid i awdurdodau lleol ystyried amser teithio wrth roi trwydded.

Daw Rheoliadau Plant (Perfformiadau a Gweithgareddau) (Cymru) 2015 i rym ar 30 Hydref a chaiff canllawiau anstadudol eu cyhoeddi yn egluro'r fframwaith newydd.

Yr ymgynghoriad

Roedd dogfen yr ymgynghoriad yn gofyn tri ar ddeg o gwestiynau penodol ynglŷn â phryd caiff plant gymryd rhan mewn perfformiadau a'r seibiannau y mae'n rhaid iddynt eu cael, ac un cwestiwn cyffredinol yn cynnig cyfle i'r ymatebwyr ychwanegu unrhyw sylwadau pellach.

Yr ymatebion a dderbyniwyd

Cafwyd cyfanswm o 21 ymatebion i'r ymgynghoriad. Cafwyd ymatebion o'r sectorau canlynol:

Enw'r Sefydliad
Estyn
Cyngor Sir Bwrdeistref Blaenau Gwent
Rondo Media
Undeb Cenedlaethol yr Athrawon
Cyngor Sir Mynwy
Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau
Cyngor Sir Bwrdeistref Castell Nedd Port Talbot
Cyngor Sir Bwrdeistref Caerffili
Bae Abertawe Newydd / New Swansea Bay
Boom Cymru
Cyngor Dinas Caerdydd
Grŵp Awdurdodau Lleol Cymru
Hartwood Films
Cyngor Bro Morgannwg
Cyngor Sir Bwrdeistref Wrecsam
Capital Law
S4C
Society of London Theatre
Dinas a Sir Abertawe
ITV
Un ateb dienw

Mae'r ddogfen hon yn amlygu'r materion a'r themâu allweddol a gododd o'r ymarfer ymgynghori ond nid yw'n ceisio ymdrin â phob pwynt unigol a godwyd yn yr ymgynghoriad.

Ymateb i gwestiynau'r ymgynghoriad

Cafwyd cyfanswm o 21 ymatebion i'r ymgynghoriad.

O'r 21 ymateb, defnyddiodd 18 ffurflen yr ymgynghoriad. Mae'r canlynol yn ddadansoddiad o'r ymatebion i bob cwestiwn.

1. Ydych chi'n cytuno â'r cynnig am uchafswm yr amser y caiff plentyn fod mewn lleoliad fel yr amlinellir isod? Os ydych chi'n anghytuno, nodwch eich rhesymau yn y blwch sylwadau

- A 9.5 awr i blant dros 9 oed
- B 8 awr i blant 5-8 oed
- C 5 awr i blant 2-4 oed
- D 3 awr i blant 0-2 oed

	Cyfanswm
Nifer o ymatebwyr	18
Cytuno	17
Anghytuno	1
Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno	0

Roedd mwyafrif clir yn cytuno â'r cynnig hwn, gydag un yn unig yn anghytuno. Dywedodd un rhanddeiliaid oedd yn cytuno bod yr oriau newydd arfaethedig yn dangos ôl meddwl ac y byddent yn sicrhau bod plant yn cael eu diogelu rhag gorweithio.

Roedd sylwadau ychwanegol yn nodi problemau a allai godi gyda'r amseroedd hyn. Gallai uchafswm o bum awr i blant 2-4 oed beri problem wrth berfformio mewn perfformiad prynhawn a nos. I oresgyn hyn, awgrymodd yr ymatebwr y dylai fod yn bosibl rhannu'r presenoldeb drwy gyfrif yr amser yr oedd yn bresennol (e.e. y gallai plentyn fod yn bresennol am ymarferion technegol yn y bore a dychwelyd ar gyfer perfformiad gyda'r nos).

Roedd ymatebwr arall yn meddwl ei bod yn hanfodol cynnwys hyblygrwydd yn yr uchafswm amser arfaethedig er mwyn gallu delio gyda gwaith yn rhedeg yn hwyr neu amgylchiadau anrhagweladwy eraill (e.e. os yw nam technegol yn golygu bod perfformiad yn hwyr) sy'n gyffredin yn y diwydiant.

2. Ydych chi'n cytuno â'r cynnig am uchafswm hyd perfformiadau? Os ydych chi'n anghytuno, defnyddiwch y blwch sylwadau i nodi a chynnig rhesymau am y terfynau a ddylai fod yn gymwys yn eich barn chi.

- A cyfanswm o 5 awr, 2.5 awr mewn un cyfnod di-dor, i blant dros 9 oed
- B cyfanswm o 3 awr, 2.5 awr mewn un cyfnod di-dor, i blant 5-8 oed
- C cyfanswm o 2 awr, 30 munud mewn un cyfnod di-dor, i blant 2-4
- D cyfanswm o 1 awr, 20 munud mewn un cyfnod di-dor, i blant 0-2oed

	Cyfanswm
Nifer o ymatebwyr	18
Cytuno	7
Anghytuno	11
Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno	0

Roedd saith yn cytuno gyda'r cynigion. Roedd un ar ddeg o ymatebwyr yn anghytuno, ond ni chafwyd sylwadau oedd yn anghytuno â chyfanswm nifer yr oriau. Roedd y rhai oedd yn anghytuno'n dweud bod yr hyd di-dor o 2.5 awr i blant 5-8 oed yn rhy hir.

Dywedodd un ymateb y dylai'r fframwaith cyfredol o ran amser ar y set barhau'n gymwys ar gyfer perfformiadau i'w darlledu gan fod amgylchedd gwaith gwahanol gan berfformiadau i'w darlledu a rhai nad ydynt i'w darlledu ac nad yw'n bosibl gweithredu union yr un set o reolau o ran seibiannau.

Roedd ymatebwr arall yn cefnogi'r cynnig i gyflwyno un set o gyfyngiadau amser ar gyfer perfformiadau i'w darlledu a rhai nad ydynt i'w darlledu, gan gefnogi'r cynnig i gynyddu hyd perfformiadau plant naw oed a throsodd o bedair i bum awr.

Roedd un sylw'n ffafrio estyn yr amser perfformio ar gyfer plant dan ddwy oed i ddwy awr, gydag uchafswm hyd o 30 munud.

3. Ydych chi'n cytuno mai 7am ddylai fod yr amser dechrau cynharaf i bob grŵp oedran? Os ydych chi'n anghytuno, pa amser(oedd) ydych chi'n eu cynnig, a pham?

	Cyfanswm
Nifer o ymatebwyr	18
Cytuno	9
Anghytuno	8
Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno	1

Roedd hanner y rhai a ymatebodd yn cytuno gyda'r cynnig hwn. O'r rhai oedd yn anghytuno un o'r materion allweddol a godwyd oedd amser teithio. Os mai 7am oedd yr amser dechrau cynharaf yna dylid rhoi ystyriaeth i amser teithio er mwyn peidio ag estyn y diwrnod ymhellach.

Roedd rhai o'r rhai oedd yn anghytuno yn dweud y dylai amser dechrau o 7am fod yn gymwys i blant dros naw oed yn unig. Awgrymodd un arall y byddai'n ffafrio amser dechrau hwyrach i wahanol grwpiau oedran fel 8am i blant 2-4 oed a 9.30 i blant dan 2 oed.

Adroddodd un ymatebwr ei fod yn croesawu'r bwriad i gydweddu'r rheolau ar gyfer perfformiadau i'w darlledu a rhai nad ydynt i'w darlledu, ond bod y cynnig hwn yn fwy perthnasol i blant mewn perfformiadau i'w darlledu gan ei bod yn anodd cyfiawnhau dechrau mor gynnwys oni bai ei fod ar gyfer ffilmio.

4. Ydych chi'n cytuno â'r cynigion am yr amseroedd hwyraf y gall plant fod yn y lleoliad perfformio? Os ydych chi'n anghytuno, pa amseroedd fydddech chi'n eu cynnig, a pham? Nodwch eich rhesymau yn y blwch sylwadau.

- A Dim plant dros 5 oed yn bresennol ar ôl 11pm
- B Dim plant rhwng 2 – 4 oed yn bresennol ar ôl 10pm
- C Dim plant dan 2 oed yn bresennol ar ôl 4p.m

	Cyfanswm
Nifer o ymatebwyr	18
Cytuno	8
Anghytuno	8
Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno	2

O'r 18 ymateb, roedd yn agos i hanner yn cytuno â'r amseroedd hwyraf y gall plant fod yn y lleoliad perfformio. Roedd nifer o resymau pam fod ymatebwyr yn anghytuno.

Un rheswm am anghytuno oedd bod y gwahaniaeth rhwng plant dan 2 oed a phlant 2-4 oed yn rhy fawr.

Roedd anghytuno cryf â'r cynnig i gyfyngu plant dan 2 oed i amser hwyraf o 4pm. Awgrymodd rhai fod babanod yn arbennig fel arfer yn cysgu llawer o'r amser a bod y cynnig hwn yn fwy cyfyngol na'r rheolau sy'n gymwys ar hyn o bryd i berfformiadau i'w darlledu gan blant dan 5 oed sy'n gosod yr amser hwyraf ar 4:30pm. Pwysleisiodd ymateb arall y byddai hyn yn atal plant dan 2 oed rhag cyfranogi mewn cynyrchiadau theatrig gan fod y mwyafrif o gynyrchiadau'n dechrau ar ôl 4pm. Nodwyd fod y rheolau newydd arfaethedig yn llawer mwy cyfyngol ar gyfer perfformiadau nad ydynt i'w darlledu na'r rheolau cyfredol, lle caniateir i bob plentyn dan 13 oed sy'n cymryd rhan mewn perfformiad nad yw i'w ddarlledu fod yn bresennol tan 10pm.

Rheswm arall dros anghytuno oedd y pryder y gallai 11pm fod yn rhy hwyr, yn enwedig os oes ysgol gan y plentyn y diwrnod nesaf. Yn ogystal, cododd ymatebwyr amser teithio, a sut y gallai hynny ychwanegu cyfnod sylweddol o amser at ddiwrnod y plentyn.

5. Ydych chi'n credu bod angen i ni bennu isafswm ar gyfer amllder seibiannau? Os felly, ydych chi'n cytuno â'r fframwaith isod? Os ydych chi'n anghytuno, nodwch eich rhesymau yn y blwch sylwadau.

- A Rhaid i blant dros 5 oed gael: seibiant bob 2.5 awr; 3 seibiant mewn 8 awr; rhaid i 1 fod ar gyfer pryd o fwyd.
- B Rhaid i blant rhwng 2 – 4 oed gael seibiant pob 30 munud.
- C Rhaid i blant rhwng 0 – 2 oed gael seibiant pob 20 munud.

	Cyfanswm
Nifer o ymatebwyr	18
Cytuno	11

Anghytuno	7
Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno	0

Roedd un ar ddeg o'r deunaw ymateb yn cytuno gyda'r cynnig hwn, ond dywedodd rhai bod y gwahaniaeth rhwng plant 2-4 oed a thros 5 oed yn ormod. Dywedodd rhai fod seibiannau mwy mynych yn well; dywedodd un y dylai'r rhai dros 5 oed gael seibiant pob 1.5 awr.

Dywedodd un ymatebwr fod y gofynion arfaethedig ar gyfer amledd a hyd seibiannau'n rhesymol, ond awgrymodd y dylai'r rheoliadau gynnwys hyblygrwydd o ran amledd seibiannau gyda chytundeb yr hebryngwr o flaen llaw, yn enwedig mewn perthynas â'r grŵp 0-2 oed.

Roedd rhai o'r sylwadau'n cynnwys awgrym i gysoni'r nifer o seibiannau i blant 0-2 oed a 2-4 oed i 30 munud.

Awgrymodd un ymatebwr y dylid ychwanegu grŵp oed arall i blant dros 7.

6. Ar hyn o bryd rhaid i blant dros 5 oed gael seibiant o 1.5 awr rhwng perfformiadau byw. Os yw'r perfformiad yn un byr, dyweder deng munud, mae'r gofyniad am seibiant o 1.5 awr yn ymddangos yn anghymesur. Rydym ni o'r farn y dylid lleihau isafswm y seibiant sydd ei angen ar berfformiadau sy'n llai nag un awr o hyd i 45 munud. Ydych chi'n cytuno y dylid lleihau isafswm y seibiant sydd ei angen ar berfformiadau sy'n llai nag un awr o hyd i 45 munud? Nodwch eich rhesymau yn y blwch sylwadau.

	Cyfanswm
Nifer o ymatebwyr	18
Cytuno	17
Anghytuno	1
Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno	0

Roedd pob ymatebwr ar wahân i un yn cytuno â'r cynnig hwn sy'n awgrymu cytundeb cryf. Roedd y sylwadau'n awgrymu bod y rhai a ymatebodd yn cytuno bod seibiant o 45 munud rhwng perfformiadau o lai nag 1 awr o hyd yn ddigonol ac yn gymesur ar gyfer yr amser y byddai'r plentyn yn bresennol yn y lleoliad perfformio, gyda'r fantais ychwanegol y byddai'r cynnig yn byrhau diwrnod gwaith y plentyn, oherwydd gan ddibynnu ar yr amgylchiadau, gallai fod yn bosibl i gynhyrchwyr amseru perfformiadau'n agosach at ei gilydd.

Roedd sylwadau o gefnogaeth yn cynnwys yr awgrym y gallai seibiant byrrach arwain at ddiwrnod gwaith byrrach sy'n aml yn rhy hir a diangen.

7. Ar gyfer pob grŵp oedran, rydym ni'n cynnig na ddylai unrhyw seibiant fod yn llai na 15 munud (fel sy'n digwydd ar hyn o bryd), ond rydym ni'n ystyried a oes modd lleihau isafswm hyd seibiannau am brydau bwyd o un awr (fel sy'n digwydd ar hyn o bryd), i 45 munud. Ydych chi'n credu y dylid lleihau isafswm hyd seibiannau am brydau bwyd i 45 munud? Nodwch eich rhesymau yn y blwch sylwadau.

	Cyfanswm
Nifer o ymatebwyr	18
Cytuno	7
Anghytuno	4
Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno	7

Roedd rhywfaint o gytuno â'r cynnig hwn, gydag un ymatebwr yn nodi mai 45 munud yw hyd yr egwyl cinio mewn nifer o ysgolion. Fodd bynnag dywedodd rhai na ddylai egwyl am fwyd fod yn llai na 45 munud a gallai fod angen seibiant hirach gan ddibynnu ar anghenion unigol y plentyn, hyd y diwrnod, natur a lleoliad y perfformiad.

Roedd pedwar o'r rhai a ymatebodd yn anghytuno, gan nodi eu bod yn dymuno parhau â'r isafswm o un awr.

8a. Mewn amgylchiadau eithriadol ydych chi'n cytuno y dylid caniatáu i hebryngwyr benderfynu y gellid cytuno i estyn yr amser hwyraf y gall plentyn gymryd rhan ym mhob math o berfformiad?

	Cyfanswm
Nifer o ymatebwyr	18
Cytuno	13
Anghytuno	3
Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno	2

Roedd tri ar ddeg o'r ymatebwyr yn cytuno gyda'r cynnig hwn, gyda rhai yn pwysleisio'r amod y dylai hyn ddigwydd mewn 'amgylchiadau eithriadol' yn unig ac nid fel norm. Awgrymodd un ymatebwr y byddai rhestr o amgylchiadau eithriadol yn ddefnyddiol i sicrhau cysondeb gweithredu. Awgrymodd rhai ymatebion fod hyn yn cynnig hyblygrwydd a fyddai'n ddefnyddiol iawn mewn amgylchiadau na ragwelwyd fel anawsterau technegol, ond lles y plentyn ddylai fod y flaenoriaeth ar bob achlysur.

8b. Os felly a ddylai fod:

A. Hyd at 30 munud	11
B. Hyd at 1 awr	3
C. Arall	3
Dim ateb	1

Opsion A – 30 munud

Roedd y mwyafrif o'r ymatebion yn ffafrio caniatáu i'r hebryngwr estyn diwrnod gwaith y plentyn am hyd at 30 munud. Roedd rhai ymatebion yn tynnu sylw at wrthdaro buddiannau posibl, gan fod hebryngwyr weithiau'n gyflogedig gan y cwmnïau cynhyrchu. Felly gallai caniatâd i ychwanegu mwy na 30 munud osod pwysau ychwanegol ar yr hebryngwr unigol.

Opsion B – Hyd at awr

Roedd rhywfaint o gefnogaeth i ganiatáu i'r hebryngwr estyn y sesiwn am hyd at awr. Roedd yr ymatebion yn awgrymu y byddai'r hyblygrwydd ychwanegol hwn yn ddefnyddiol, os yw'n glir na fyddai'n niweidiol i iechyd a lles y plentyn.

Roedd pryderon am y defnydd o'r caniatâd hwn, ac awgrymwyd y dylai'r hebryngwr orfod adrodd yn ôl i'r awdurdod trwyddedu ynghylch pryd, ble a pham yr ymarferwyd y rheol 'amgylchiad eithriadol' er mwyn monitro ac atal gorddefnydd o'r caniatâd.

9. Ydych chi'n cytuno y dylai'r seibiant dros nos i blant rhwng 2 a 12 oed fod yn 14 awr o leiaf?

	Cyfanswm
Nifer o ymatebwyr	18
Cytuno	12
Anghytuno	6
Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno	0

Roedd deuddeg o'r deunaw ymateb yn cytuno bod seibiant dros nos i blant rhwng 2 a 12 oed o 14 awr o leiaf yn briodol. Roedd rhai'n anghytuno am nifer o resymau amrywiol. Yn sgil yr amseroedd presenoldeb hwyraf y cyfeiriwyd atynt yng nghwestiwn 3, awgrymodd un ymateb fod pryder y gallai hyn olygu na fyddai plentyn oedd yn bresennol tan 11pm y noson gynt yn gallu dod yn ôl tan 2pm y diwrnod canlynol. Gallai hyn olygu na allai ddod i ymarferion neu alwadau'r wasg yn y bore. Yn yr amgylchiadau hynny byddai cyfyngiad o 12 awr yn cael ei ffafrio.

Roedd rhai o'r rhai oedd yn anghytuno'n awgrymu rhannu'r grwpiau oed er mwyn i blant 2-8 oed gael seibiant dros nos o 14 awr o leiaf a bod plant 9-12 oed yn cael seibiant o 12 awr.

10. Ydych chi'n cytuno y dylai'r seibiant dros nos i blant rhwng 13 a 16 oed fod yn 12 awr o leiaf?

	Cyfanswm
Nifer o ymatebwyr	18
Cytuno	15
Anghytuno	3
Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno	0

Roedd y mwyafrif yn cytuno â'r cynnig hwn. Roedd rhai'n anghytuno gan awgrymu y dylai barhau yn 14 awr, fel y mae ar hyn o bryd. Unwaith eto pwysleisiwyd amser teithio fel mater allweddol i'w ystyried.

11. Ydych chi'n cytuno y dylai'r awdurdod lleol gael caniatáu gwaith nos ar gyfer perfformiadau llwyfan a ffilm?

	Cyfanswm
Nifer o ymatebwyr	18
Cytuno	10
Anghytuno	7
Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno	1

Roedd dros hanner y rhai a ymatebodd yn cytuno â'r cynnig i ganiatáu gwaith nos ar gyfer perfformiadau llwyfan a ffilm. Roedd y rhai oedd yn anghytuno yn dweud er eu bod yn croesawu'r bwriad i gydlynw'r rheolau ar gyfer perfformiadau i'w darlledu a rhai nad ydynt i'w darlledu, bod y cynnig hwn yn fwy perthnasol i berfformiadau i'w darlledu yn hytrach na pherfformiadau llwyfan. Dywedodd rhai mai ychydig iawn os o gwbl o alw am waith nos oedd mewn cynyrchiadau llwyfan ac na fyddai'n cael ei ddefnyddio. Awgrymodd ymatebwr arall y dylid ystyried oed y plentyn.

12. Ydych chi'n cytuno y dylai'r awdurdod lleol gael caniatáu gwaith nos ar gyfer perfformiadau dan do ac awyr agored?

	Cyfanswm
Nifer o ymatebwyr	18
Cytuno	9
Anghytuno	7
Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno	2

Cytunodd hanner y rhai a ymatebodd â'r cynnig i ganiatáu gwaith nos ar gyfer perfformiadau dan do ac awyr agored. Nododd rhai mai anaml y caiff golygfeydd dan do eu ffilmio yn y nos, ac mai golygfeydd awyr agored a gâi eu ffilmio yn y nos.

Roedd saith ymatebwr yn anghytuno â'r cynnig hwn, gan nodi eu bod yn pryderu y byddai hyn yn golygu cynnydd yn y nifer o blant oedd yn gweithio ar ôl 11 pm. Dadleuwyd y dylid caniatáu hyn yn unig pan oedd gwirioneddol angen i gynhyrchiad gael lefel o oleuni neu dywyllwch i greu 'effaith bywyd real'. Byddai'r amser hwyraf ar gyfer hyn yn cael ei bennu gan amser y flwyddyn, a phe bai'r cynnig i estyn yr amser hwyraf yn y lleoliad perfformio i 10pm/11pm yn dod i rym, gallai fod rhywfaint o ddefnydd cyfyngedig o'r rheol hon yn ystod y gaeaf.

Un pryder a godwyd oedd y gallai'r cynnig hwn gael ei gamddefnyddio fel cyfle i ddefnyddio adeiladau nad oeddent fel rheol yn cael eu defnyddio yn y nos drwy eu cynnig am gyfraddau gostyngol yn ystod oriau anghymdeithasol.

13. Ydych chi'n cytuno y dylid pennu mai chwe diwrnod yw'r uchafswm o ddiwrnodau olynol y caiff plentyn gymryd rhan mewn unrhyw fath o berfformiad ac ymarfer?

	Cyfanswm
Nifer o ymatebwyr	18
Cytuno	10
Anghytuno	7
Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno	1

Cytunodd deg o'r ymatebwyr mai chwe diwrnod ddylai fod yr uchafswm o ddiwrnodau olynol y caiff plentyn gymryd rhan mewn unrhyw fath o berfformiad ac ymarfer.

Dywedodd un ymatebwr oedd yn cytuno ei bod yn hanfodol fod yr uchafswm o ddiwrnodau olynol yn aros ar 6 ar gyfer perfformiadau nad ydynt i'w darlledu oherwydd yn nodweddiadol caiff perfformiadau theatrig eu trefnu rhwng dydd Llun a dydd Sadwrn.

Roedd saith o'r ymatebwyr yn anghytuno, gan ddweud na ddylid cydweddu'r elfen hon o'r rheoliadau perfformio. Roedden nhw'n dweud y byddai cynyddu dyddiau darlledu i chwe diwrnod yn olynol yn gosod straen ar y plant a allai fod mewn ffilm yn para rhwng 6 a 9 mis. Dylid ystyried yr effaith y byddai hyn yn ei gael ar eu haddysg a'u lles. Byddai'n well gan rai o'r rhai oedd yn anghytuno gael 5 diwrnod olynol o weithio gyda 2 ddiwrnod yn rhydd.

14. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

Codwyd nifer o faterion a amlinellir isod:

Y broses trwyddedu

Dywedodd rhai ymatebwyr y byddent yn croesawu'r cyfle i archwilio'r broses trwyddedu, yn bennaf i drafod cysondeb y broses ar draws y gwahanol awdurdodau. Dywedodd eraill y byddai'n fuddiol cael mwy o gysondeb ymhlith yr awdurdodau lleol wrth ddehongli'r rheoliadau a gweinyddu trwyddedau. Yn ogystal byddai cysondeb o ran dogfennau a dull gweithredu'n fanteisiol.

Amser teithio

Cododd nifer o ymatebwyr gwestiwn amser teithio i'r perfformiad ac yn ôl, gan ddadlau bod rhaid cynnwys hyn wrth ystyried oriau perfformio ar gyfer trwydded gan y gallai estyn diwrnod y plentyn yn sylweddol a chael effaith ar les y plentyn.

Hyfforddi hebryngwyr

Gwnaeth un ymatebwr gais am hyfforddiant cyffredin i hebryngwyr gan Lywodraeth Cymru.

Tystysgrif feddygol

Cafwyd sylwadau'n croesawu'r penderfyniad i ddiddymu'r gofyniad am dystysgrif feddygol fel elfen safonol gan awgrymu:

bod hyn yn aml yn arafu'r gwaith o brosesu trwyddedau

- bod meddygon yn aml yn anymwybodol o'r broses ac yn gallu bod yn gyndyn i ddarparu tystysgrif oherwydd hynny
- bod tystysgrifau'n aml yn cael eu seilio ar gofnodion meddygol hanesyddol y plentyn ac nad ydynt yn gyfredol o bosibl
- bod plant weithiau'n colli ysgol i ymweld â'r meddyg teulu
- cost.

Dywedodd yr ymatebwr y byddai'n llawer mwy defnyddiol gofyn am ddatganiad iechyd gan riant / gwarcheidwad y plant a chadarnhad gan yr ysgol i nodi a ydynt yn ymwybodol o unrhyw reswm meddygol pam na allai'r plentyn gymryd rhan yn y perfformiad. Ar lefel gwbl ymarferol, os yw cwmni cynhyrchu'n dymuno cyflogi nifer sylweddol o blant i berfformio fel actorion cefndir (extras) yna mae mynnu tystysgrif feddygol ar gyfer pob plentyn yn faich diangen a chostus.

Angen arweiniad

Dywedodd un rhanddeiliad y byddai'n ddefnyddiol i'r canllawiau nodi'r uchafswm oriau a phwysleisio na ddylid ystyried hyn fel norm a bod rhaid ystyried anghenion unigol y plant mewn ymgynghoriad â'u rhieni/gwarcheidwaid cyn amserlennu dyddiau ac amser y galwadau.

Crynodeb o ymatebion a gafwyd drwy ebost

Cyflwynwyd tri ymateb drwy ebost gyda sylwadau mwy cyffredinol sydd wedi'u crynhoi isod:

Dywedodd un o'r ymatebwyr hyn nad oedd ganddo sylwadau manwl, ond ei fod yn croesawu'r cynigion yn gyffredinol, gan nodi eu bod i'w gweld yn rhesymol ac yn gymesur, ac yn debygol o gael yr effaith a ddymunwyd sef symleiddio'r rheoliadau heb leihau'r warchodaeth a roddir i blant sy'n perfformio.

Dywedodd ymatebwr arall nad oedd y rheolau cyfredol bob amser er budd gorau'r plant a'i bod yn aml yn anodd i gwmnïau cynhyrchu eu gweithredu gan eu bod yn gymhleth ac yn gyfyngol. Nodwyd hefyd y byddai'n fuddiol pe bai modd addasu'r seibiannau a bod hawl yn cael ei roi i hebryngwr yr awdurdod lleol addasu'r rheolau pe bai hynny er budd gorau'r plentyn.

Roedd ymatebwr arall yn cytuno gyda'r penderfyniad i ddileu'r gofyniad i ddarparu tystysgrif feddygol cyn rhoi trwydded, gan awgrymu bod y rheol hon yn aml yn rhwystro plentyn rhag cyfranogi mewn perfformiadau.

Y camau nesaf

Ystyriwyd yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac mae'r rhain wedi helpu i ffurfio Rheoliadau Plant (Perfformiadau a Gweithgareddau) (Cymru) 2015 a gaiff eu gosod ar wefan Llywodraeth Cymru gyda chanllawiau ategol.